

❖ TYMOR I BARATOI

Tymor i baratoi at y Nadolig yw'r Adfent. Mae'n dechrau ar y Sul cyntaf wedi Tachwedd 30, yn parhau dros bedwar Sul ac, yn draddodiadol, dyma ddechrau blwyddyn yr Eglwys. Gan na ddywed y Beibl pa ddiwrnod y ganed Iesu, ni fyddai'n teidiau Piwritanaidd yn cadw'r Nadolig. Ond yn hyn, fel gyda phethau eraill, megis ffenestri lliw, yr ydym wedi ymdebygu i weddill byd cred, ac mae eglwysi Annibynnol nawr sy'n cadw, nid y Nadolig yn unig, ond yr Adfent hefyd.

Bydd siopau'n chwarae carolau cyn y Nadolig, ond gwrthodai arweinydd y gân yn yr eglwys olaf a wasanaethais eu canu tan ddydd Nadolig ac wedyn, gan ganu dim ond emynau'r Adfent cyn hynny. Credai na ddyldid dynesu at y Nadolig fel pe bai'n wyl y Banc, credai ei bod yn wyl i baratoi ar ei chyfer, a bod dathlu'r Nadolig ar gân yn gyfoethocach o ddal y llawenydd yn ôl tan yr amser priodol.

Dyweddodd capten llong wrthyf fod morwyr yn y llynges yn rhoi dwy saliwrt wrth adael llong neu fynd arni. Gŵyr pawb meddai mai cydnabod awdurdod y capten wna'r saliwrt i'r *bridge*, y saliwrt gyntaf, saliwrt seciwlar. Ond ychydig hyd yn oed o forwyr meddai a wŷr fod y saliwrt i'r *poop deck*, yr ail saliwrt, yn mynd 'nôl i ddyddiau'r llongau hwyliau, pan gynhelid offeren ddyddiol ar allor yng nghefn y llong. Saliwrt i bresenoldeb Crist yn yr elfennau yw'r ail saliwrt yn y gwraidd, saliwrt sanctaidd.

Prin fod angen i neb ofidio ynghylch rhoi saliwrt seciwlar ddigonol i'r Nadolig, ond oherwydd gwasgfa drom y byd arnom bryd hynny, nid yw mor sicr y rhown saliwrt sanctaidd ddigonol iddo. Dylai saliwrt sanctaidd i'r Nadolig yn gyntaf olygu paratoi ar ei gyfer. Gall hynny olygu meddwl ymlaen llaw am ffyrdd ymarferol o'i ddathlu'n ystyrion. Dyma ambell awgrym.

1. Anfon cardiau i gymdogion y tybiwn na chânt lawer o gardiau, neu i bobl y bydd y Nadolig hwn yn galed iddynt am eu bod newydd golli gwaith neu anwylyd.

2. Rhoi anrhegion i rywrai anghenus na fyddant yn debyg o roi i ni. Wedi marw 'nhad, dysgais fod fy rhieni bob Nadolig ers blynyddoedd, ar ôl neilltuo arian i'w roi at anrhegion, wedi gwario ei hanner ar anrhegion i'r teulu, a'r hanner arall ar anrhegion i bobl dost neu unig yn eu heglwys a'u cylch. Aent â'r anrhegion eu hunain. Ond odid nad yr ymweliad oedd yr anrheg orau.

3. Anfon arian at Cymorth Cristnogol, neu at sefydliad sy'n ymwneud â phlant yn unig, neu at un sy'n ymateb i argyfwng arbennig – neu at fwy nag un achos da. A rhoi'n hael! Pan ofynnodd trysorydd Eglwys Riverside, Efrog Newydd, i Bill Coffin, y gweinidog, faint oedd e'n bwriadu ei roi i'r eglwys y flwyddyn ganlynol, ei ateb oedd, 'Degfed rhan o 'nghyflog.' 'Atebais yn syth,' meddai, 'oherwydd mae rhoi arian fel paffio, os arhoswch i feddwl, byddwch yn colli'r dydd.' Aeth ymlaen, 'Er bod Duw'n hoffi rhoddwr llawen, ni themlais yn llawen wrth addo cymaint, *but I expected cheer to come upon me.*'

4. Ceisio dewis anrhegion yn ddigon cynnar fel bo mwy o obaith dewis yn ôl ystyr na phris. Nid amser yw'r Nadolig i fod yn grintachlyd, ond nid amser yw chwaith i adael i fyd masnach beri i ni wario mor ddi-sens nes ein bod yn teimlo'n euog a bod ysbryd y Nadolig yn mynd ar goll i ni.

5. Trefnu noson deuluol, i gynnwys plant os yn bosibl, yn yr ardegau'n arbennig, cael swper ynghyd, a gofyn i bawb – yr ardegwyr hefyd – ddod â rhywbeth. Dweud bod y teledu wedi torri, peidio â chodi'n syth i glirio'r ford ar ôl bwyta, ond aros, i siarad, a siarad. Nid yw'r ifanc yn clywed digon o drafod a rhannu atgofion gan oedolion. Nid digwyddiad yn ymwneud â phlentyn yn unig oedd y Nadolig cyntaf, yr oedd yn ymwneud â theulu bychan hefyd.

6. Gwahodd rhywun unig i ginio ddydd Nadolig. Neu geisio trefnu cinio Nadolig yn festri'r capel i rai sy'n byw wrthynt eu hunain.

7. Gwneud nodyn o unrhyw beth y byddem o edrych yn ôl wedi ei wneud yn wahanol, er mwyn gwneud yn well y Nadolig nesaf. A gall pob un, mae'n siŵr, ychwanegu syniadau eraill at y rhestr uchod.

Wrth gwrs, mae hefyd yn bwysig i ni baratoi'n hysbryd drwy ymwneud yn ystod yr Adfent â rhai o'r themâu a'r cymeriadau Beiblaidd a fu'n rhan o'r paratoi ar gyfer y Nadolig cyntaf.

Vivian Jones